Prifysgol Abertawe
Swansea University

Disgrifiad Swydd: Swyddi Gwasanaethau Proffesiynol

Coleg/Ysgol:	Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe
Teitl y Swydd:	Technegydd ymchwil labordy - ANTC
Adran/Pwnc:	Niwrowyddoniaeth/ Gwyddorau Biofeddygol/ Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe
Cyflog:	gradd *5* £26,707 - £29,558
Oriau gwaith:	*14 awr yr wythnos*
Contract:	Amser penodedig tan 31 Mawrth 2028
Lleoliad:	Bydd y swydd hon wedi'i lleoli ar Gampws Singleton

Cyflwyniad	Gwahoddir ceisiadau am dechnegydd labordy (ymchwil) ym maes niwrowyddoniaeth. Ariennir y swydd fel rhan o 'Ganolfan Niwrotherapïau Uwch - ANTC' Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Bydd y swydd yn cefnogi prosiectau ymchwil niwrowyddoniaeth trawsddisgyblaethol gyda ffocws ar MS a chyflyrau niwrolidiol.
Gwybodaeth gefndir	Mae ANTC yn gyfleuster ymchwil Cymreig a weinyddir drwy Brifysgol Caerdydd (a elwid gynt yn uned BRAIN) sy'n ymroddedig i ddatblygu a darparu triniaethau ar gyfer cyflyrau niwrolegol cymhleth. Mae ANTC yn Abertawe yn ffrwd waith gydweithredol sy'n canolbwyntio ar ddarparu biofarcwyr, genynnau a niwropatholeg newydd i ddatrys yr amrywiaeth fiolegol mewn clefydau niwroddirywiol a niwrolidiol. Mae ymchwil niwrowyddoniaeth yn Abertawe yn cynnwys uwch ymchwilwyr, ymchwilwyr a darlithwyr, sy'n gweithio ar ddeall sail fiolegol amrywiaeth o glefydau niwroddirywiol a niwrolidiol. Byddwch yn rhyngweithio â'r Prif Ymchwilydd, ymchwilwyr ôl-ddoethurol a myfyrwyr ôl-raddedig ac yn darparu cymorth labordy a thechnegol i brosiectau sy'n ymchwilio i sail niwrogemegol a sail bioleg celloedd clefydau, fel multiple sclerosis, clefyd Parkinson a chlefyd Alzheimer. Byddwch yn gweithio gyda chydweithwyr ar draws yr adran i hwyluso astudiaethau cydweithredol parhaus a newydd. Byddwch yn trin samplau clinigol ac ôl-farwolaethol mewn prosiectau sy'n defnyddio staenio meinwe, morffometreg feintiol a dadansoddi hylifau (hylif serebro-sbinol a serwm). Mae'r swydd hon ar gyfer graddedig biofeddygol brwdfrydig a chymhellol sydd â phrofiad labordy profedig ym maes niwrowyddoniaeth a/neu rywun sydd wrthi'n astudio'n rhan-amser at gymhwyster ôl-raddedig sy'n berthnasol i'r rôl. Mae'n hanfodol bod yr ymgeisydd ar gael i weithio o fis Ionawr 2027.
Prif Ddiben y Swydd	1. Cefnogi cydweithrediadau ag ANTC a phrosiectau parhaus eraill yn y labordy. 2. Datblygu a defnyddio eich sgiliau labordy niwrowyddoniaeth profedig mewn adrannu meinwe, imiwnoliwio a/neu ddadansoddi proteinau. 3. Cynorthwyo i gasglu a dadansoddi data o garfanau clinigol ac ôl-farwolaethol, gyda ffocws ar y prosesau biolegol sy'n sail i ddatblygiad MS. 4. Trin a pharatoi samplau meinwe dynol sefydlog a rhewedig-ffres sy'n addas ar gyfer ymchwil. 5. Cyflawni imiwnoliwio a hybridu in situ ar samplau wedi'u paratoi. 6. Cynnal dadansoddiad microsgopeg maes llachar a fflworoleuedd (epi-fflworoleuedd a chonffocal). 7. Casglu data a'u trin yn briodol yn Excel ac mewn pecynnau dadansoddi ystadegol. 8. Ysgrifennu a chadw cofnodion cywir o'r ymchwil a gyflawnir. 9. Cyfathrebu a chyflwyno canlyniadau ymchwil o fewn y grŵp ymchwil, mewn cyfarfodydd, a thrwy ddulliau cydnabyddedig eraill, fel y bo'n briodol. 10. Sicrhau bod offer labordy'n cael ei ddefnyddio'n gywir a monitro adweithyddion ac archebu eitemau newydd pan fo'r angen yn codi. 11. Diweddaru eich gwybodaeth yn y maes drwy drafodaethau a darllen llenyddiaeth berthnasol. 12. Darparu cyngor technegol mewn perthynas â'r ymchwil, a'r technegau a ddefnyddir, i aelodau eraill o staff o fewn y grŵp ymchwil.

Dyletswyddau Cyffredinol	1. Ymgysylltu'n llawn â pholisïau Galluogi Perfformiad ac Iaith Gymraeg y Brifysgol 2. Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn arferion gwaith a chynnal cydberthnasau gwaith cadarnhaol. 3. Arwain ar welliant parhaus perfformiad iechyd a diogelwch drwy ddealltwriaeth dda o'r proffil risg a datblygu diwylliant iechyd a diogelwch cadarnhaol. 4. Unrhyw ddyletswyddau eraill fel y'u cyfarwyddir gan Bennaeth y Coleg / yr Adran neu eu cynrychiolydd enwebedig, y disgwylir iddynt fod o fewn diffiniad y radd. 5. Sicrhau bod rheoli risg yn rhan annatod o'ch gweithgareddau o ddydd i ddydd er mwyn sicrhau bod arferion gwaith yn cydymffurfio â Pholisi Rheoli Risg y Brifysgol.
Gwerthoedd y Gwasanaethau Proffesiynol	Mae pob maes Gwasanaethau Proffesiynol ym Mhrifysgol Abertawe yn gweithredu yn unol â set ddiffiniedig o Werthoedd Craidd - Gwerthoedd y Gwasanaethau Proffesiynol ac mae disgwyl i bawb allu dangos ymrwymiad i'r gwerthoedd hyn o adeg gwneud cais hyd at gyflawni eu rolau o ddydd i ddydd. Mae ymrwymiad i'n gwerthoedd ym Mhrifysgol Abertawe yn ein cefnogi i hyrwyddo cydraddoldeb a gwerthfawrogi amrywiaeth er mwyn defnyddio'r holl dalent sydd gennym. **Rydym yn Broffesiynol** Rydym yn ymfalchïo mewn defnyddio ein gwybodaeth, ein sgiliau, ein creadigrwydd, ein huniondeb a'n barn i ddarparu gwasanaethau ac atebion arloesol, effeithiol ac effeithlon o ansawdd rhagorol **Rydym yn Gweithio Gyda'n Gilydd** Rydym yn ymfalchïo mewn gweithio mewn amgylchedd rhagweithiol a chydweithredol o gydraddoldeb, ymddiriedaeth, parch, cydweithrediad a her i ddarparu gwasanaethau sy'n ymdrechu i ragori ar anghenion a disgwyliadau cwsmeriaid. **Rydym yn Gofalu** Rydym yn cymryd cyfrifoldeb dros wrando, deall ac ymateb yn hyblyg i'n myfyrwyr, ein cydweithwyr, ein partneriaid allanol a'r cyhoedd fel bod pob cyswllt sydd ganddynt â ni yn brofiad personol a chadarnhaol. Mae ymrwymiad i'n gwerthoedd ym Mhrifysgol Abertawe yn ein cefnogi i hyrwyddo cydraddoldeb a gwerthfawrogi amrywiaeth er mwyn defnyddio'r holl dalent sydd gennym.
Manyleb Person	**<u>Meini Prawf Hanfodol:</u>** **Cymhwyster:** Lefelau A neu gyfwerth mewn gwyddorau; cymhwyster proffesiynol perthnasol a phrofiad labordy niwrowyddoniaeth. Ar gael i ddechrau gweithio ym mis Ionawr 2027. **Profiad:** Profiad labordy mewn cyfleuster ymchwil biofeddygol, yn ddelfrydol mewn ymchwil niwrowyddoniaeth. **Gwybodaeth a Sgiliau:** 1. Tystiolaeth o sgiliau cynllunio a gallu i gynnal gwaith yn unol ag amcanion y prosiect. 2. Brwdfrydedd dros ymchwil biofeddygol a niwrowyddoniaeth. 3. Sgiliau TG, gan gynnwys holl becynnau Microsoft Office. 4. Gallu i gyfleu eu gwaith i gymheiriaid ac uwch gydweithwyr. 5. Sgiliau cyfathrebu rhagorol, yn ysgrifenedig ac ar lafar. 6. Gallu i ddilyn gweithdrefnau penodedig a dilyn protocolau'n fanwl gywir. 7. Y gallu i ddadansoddi a chyflwyno data gan ddefnyddio pecynnau meddalwedd priodol. **<u>Meini Prawf Dymunol:</u>** 1. BSc neu MSc mewn pwnc sy'n gysylltiedig â'r Biowyddorau. 2. Cynefindra â meddalwedd prosesu delweddau.

	3. Profiad ymchwil mewn niwrowyddoniaeth a/neu wrthi'n astudio at radd meistr ymchwil rhan-amser sy'n berthnasol i'r rôl. **Gwerthoedd:** • Tystiolaeth amlwg o ymfalchïo mewn darparu gwasanaethau ac atebion proffesiynol • Gallu i weithio gyda'n gilydd mewn amgylchedd o gydraddoldeb, ymddiriedaeth a pharch i ddarparu gwasanaethau sy'n ymdrechu i ragori ar anghenion a disgwyliadau cwsmeriaid • Tystiolaeth amlwg o ddarparu dull gofalgar tuag at eich holl gwsmeriaid gan sicrhau profiad personol a chadarnhaol
Gwybodaeth Ychwanegol	Ymholiadau anffurfiol: Dr Owain Howell o.w.howell@swansea.ac.uk